
# Plâu yr Aifft



# Cyflwyniad


Wythnos yma byddwn yn edrych ar Moses a'r Deg Pla o'r Aifft o Exodus 7 – 12. Rhai o'r pwyntiau pwysig byddwn yn edrych ar wythnos yma yw:

- Mae Duw yn achub ei bobl ac yn eu rhyddhau.
- Mae Duw eisiau i ni gael calon feddal ac i ufuddhau Iddo, dim bod a chalon galed fel Ffaro.
- Roedd Ffaro yn meddwl ei fod y mwyaf pwerus, ond dysgodd mai Duw yw'r mwyaf pwerus.


Video playlist

inc video lesson









## Canllaw'r wers

Atgoffwch eich plentyn bod caethwas yn berson sy'n berchen i berson arall. Dywedwch wrthynt fod yr Iddewon yn gaethweision ac yn anhapus iawn. Atgoffwch y plentyn fod Moses wedi cael ei alw gan Dduw i ryddhau'r Iddewon.

Pasiwch bethau caled a meddal i'r plentyn. Gofynnwch i'r plentyn benderfynu os yw'r peth yn galed neu'n feddal. Llenwch fowlen gyda dŵr. Rhowch y pethau meddal fel lliain neu sbwng i mewn. Dangoswch i'r plentyn fel mae'r pethau yma yn socian y dŵr i fyny ac yn cael eu llenwi gyda'r dŵr. Nawr rhowch bethau caled fel carreg neu bren yn y dŵr. Dangoswch i'r plentyn nad ydynt wedi socian y dŵr i fyny. Pwyntiwch allan bod ein calonnau'n medru bod yn galed neu feddal. Gall calon feddal cael ei llenwi gyda Duw, ond bydd calon galed yn aros yn wag heb Dduw. Ymarferwch cyfri fyny i ddeg gyda'ch plentyn. Gallwch ei helpu i ddeall rhai o'r plâu. Dyma rhai syniadau.


Gofynnwch iddynt a fyddent yn hoffi ffeindio broga yn eu cinio. Pwyntiwch allan cymaint o boen yw gwybed. Dychmygwch mor anodd byddai i wneud unrhywbeth yn y tywyllwch. Gallwch hyd yn oed troi'r goleuadau i ffwrdd a gofyn i'r plentyn ffeindio creon o liw arbennig.

Meddyliwch sut wnaeth yr Eifftiaid ceisio cystadlu gyda Duw a dangos eu nerth. Siaradwch am fel mae Duw yn holl nerthol.

Siaradwch am mor bwysig yw ufuddhau yn gyfan gwbl. Atgoffwch y plentyn o'r adegau ble ceisiodd Ffaro hanner ufuddhau i Dduw trwy ryddhau dim ond rhan o'r Iddewon neu trwy gwrthod iddynt fynd a'u hanifeiliaid. Helpwch y plentyn i feddwl am amser pan oeddynt heb ufuddhau yn llawn (er enghraifft dim ond tacluso rhan o'i deganau). Atgoffwch y plentyn ein bod angen cymorth Duw i fod yn ufudd Iddo.

Helpwch y plentyn weddïo am galon feddal ac i Dduw ei ryddhau o bechod.

© 2022 truewaykids.com



Os na fyddai Ffaro yn ufuddhau, byddai'r mab hynaf ym mhob teulu yn marw.
Dim ond y rhai oedd yn ufuddhau i Dduw ac yn rhoi gwaed ar byst eu drysau byddai'n cael eu hachub.
Roedd yn drist, ond roedd Ffaro wedi parhau i wrthod gwrando ar Dduw.
Roedd yr Eifftiaid yn anhapus iawn.
O'r diwedd, galwodd Ffaro ar Moses a dywedodd, "Ewch. Rydych yn rhydd. Gadewch ni'n llonydd."



# Y Plâu




Ufuddhaodd Moses i Dduw ac aeth at Ffaro gyda'r neges rhoddodd Duw iddo "Gadewch i'r Iddewon fynd."

Ond dywedodd Ffaro, "Na."

Aeth Moses at ddŵr yr afon a'i gyffwrdd. Mewn amrantiad, trodd yn waed! Doedd neb yn medru yfed y dŵr yn yr afon. Roedd yr Eifftiaid yn sychedig iawn.

Ond roedd calon Ffaro yn galed. "Wna i ddim gadael i'ch pobl fynd."



Wythnos yn ddiweddarach, dywedodd Duw wrth Moses am fynd yn ôl at Ffaro.
Dywedodd Moses wrth Ffaro, “Mae Duw yn dweud, gadewch I'm pobl fynd, neu bydd eich gwlad yn cael ei gorchuddio â brogaod.”
Dywedodd Ffaro, “Na!”
Gorchuddiwyd y wlad i gyd a brogaod.
Galwodd Ffaro am Moses. “Na i adael i'ch pobl fynd os wnewch chi gael gwared â'r brogaod.”





Gwnaeth Moses hyn, ond newidiodd Ffaro ei feddwl.

Anfonodd Duw mwy a mwy o blâu i'r Aifft.

Gwybed. Afiechyd. Anifeiliaid meirw. Tywydd drwg. Locustiaid a mwy.

Ond nid oedd Ffaro yn gadael i'r bobl adael.

Yn olaf, anfonodd Duw'r pla gwaethaf un.

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## Caled a Meddal (mewn dŵr)

Helwch gasgliad o wrthrychau. Yn gyntaf, gofynnwch i'ch plentyn trefnu'r pethau mewn i caled a meddal.
Nesaf llenwch fowlen gyda dŵr a gwyliwch i weld pa rhai o'r gwrthrychau sy'n socian y dŵr i fyny.
Dywedwch bod Duw eisiau i'n calonnau fod yn feddal, felly byddwn yn socian i fyny'r pethau mae Duw eisiau i ni ddysgu ganddo.





## Dail lili gerddorol

Casglwch gardbord, papur, neu dâp i wneud "dail lili". Fel ynysoedd cerddorol, mae'r plentyn yn neidio o gwmpas fel broga wrth i'r miwsig chwarae. Pan mae'r miwsig yn stopio, rhaid iddynt fynd ar ddeilen lili.

## Golau bant - Dyfalwch y gwrthrych

Diffoddwch y goleuadau i gyd yn yr ystafell fel ei bod mor dywyll â phosibl.

Pasiwch rhai gwrthrychau i'ch plentyn a gofynnwch iddynt ddyfalu beth maent yn dal.


Gofynnwch i'ch plentyn ddychmygu beth oedd hi fel yn yr Aifft mewn tywyllwch cyfan.



© 2022 truewaykids.com


# Dot i dot







© 2022 truewaykids.com

# Deg






10 10 10 10 10 10

10 10 10 10 10 10

10 10 10 10 10 10


10 10 10 10 10 10



© 2022 truewaykids.com

# Sawl?






© 2022 truewaykids.com

# Lliwio gyda rhifau

1 -Melyn
2 - Coch
3 - Du





© 2022 truewaykids.com

# Crefft Gêm Broga a Gwybedyn


## Pethau byddwch angen:

https://youtu.be/VEPuUj9TZDI


- Templed
- Cerdyn gwyn
- Siswrn
- Glud
- Pensiliau lliw
- gwlân neu gortyn
- tâp
- botel fach plastig



## Beth i'w wneud:




Lliwiwch y llun.




Torrwch y templed allan



Torrwch y botel fach plastig mewn hanner, ychydig o dan y label.



Tapiwch ychydig o wlân tu mewn i gaead y botel a chlymwch ar y rhan sgriwio o'r botel.



Gludwch froga ar y botel, coesau ar y cefn a'r gwybedyn ar gaead y botel.


SUT I CHWARAE

Mae'r gêm yma yn debyg i'r gêm pêl a chwpan.


Ceisiwch ddal y gwybedyn tu mewn i'r broga.

Atgoffwch y plant am blâu'r gwybed a brogaod.


© 2022 truewaykids.com




© 2022 truewaykids.com




© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com




© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com

# Amser addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids.  Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## Obey, Obey The Lord

https://youtu.be/glD4-xl1Amg

## Speak Up

https://youtu.be/esUsHmkRliA

## Everybody Get Walkin'

https://youtu.be/KcBw06THpn0

# Amser Gweddi

Diolchwch i Dduw am eich cadw rhag niwed.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i fod yn ufudd Iddo.

## Wythnos nesaf

## Y Môr Coch




Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe

© 2022 truewaykids.com